

Casgliad Data Digartrefedd

Ebrill 2023 - Mawrth 2024

Mae'r Gwasanaethau Ystadegol y Llywodraeth Cymru yn casglu'r data yma. Mae'n ffynhonnell wybodaeth am nifer yr achosion o ddigartrefedd a dderbyniodd awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae'r data yn cael eu defnyddio i gyfeirio polisiâu, ateb cwestiynau, mewn briffio ac mewn cyhoeddiadau Datganiad Cyntaf. Mae'n helpu i roi darlun o ddigartrefedd yng gyffredinol yng Nghymru a Phrydain Fawr.

Dewiswch eich iaith penodol / Choose your preferred language:

Cymraeg/Welsh

Gwybodaeth am y darparwr

Dewiswch eich awdurdod o'r rhestr a ddarparwyd

DEWISWCH



Dilysu

Dolennau	Wedi ei gwblhau
Canllawiau Technegol	
Diffiniadau Atal	
Canllawiau ar gyfer tabl 1	
Canllawiau ar gyfer tabl 2	
Canllawiau ar gyfer tabl 3	
Canllawiau ar gyfer tabl 4	
Canllawiau ar gyfer tablau 5-7	
Canllawiau ar gyfer tabl 8	
Manylion cyswllt	0%
Baich wrth ymateb arolygon	0%

Dolennau ffurflen	Tabl wedi ei gwblhau
Tabl 1 >>	26%
Tabl 2 >>	56%
Tabl 3 >>	22%
Tabl 4a >>	19%
Tabl 4b >>	19%
Tabl 4c >>	19%
Tabl 4d >>	19%
Tabl 5 >>	29%
Tabl 6 >>	42%
Tabl 7 >>	8%
Tabl 8 >>	52%
Dilysu >>	0%

Cyfanswm	22%
----------	-----

Er mwyn cysondeb yr ystadegau, cofnodwch bob achos ar sail y ddeddfwriaeth newydd lle bo hynny'n bosibl. Os na all data gael eu cynnwys am unrhyw reswm, rhowch wybod i'r tîm casglu data drwy gofnodi yn y nodiadau adran ar y ffurflen.

Dychwelwch y ffurflen trwy Objective Connect cyn 17 Mai 2024

<https://secure.objectiveconnect.co.uk/>

E-bost: casoliadautai@llyw.cymru



Newidiadau i ddata'r chwarteri diwethaf (os oes angen)	Yn ei ystyr ehangaf, 'atal digartrefedd' yw pan fydd awdurdod lleol yn cymryd cam cadarnhaol i ddarparu cymorth tai i rywun sy'n ei ystyried ei hun mewn perygl o fod yn ddigartref yn y dyfodol agos, a'i fod ef neu hi, o ganlyniad, yn gallu aros yn ei lety presennol neu gael llety arall gan ddatrys y sefyllfa am y 6 mis canlynol o leiaf. Y prif bwyntiau yw
	• bod yr unigolyn wedi ceisio cymorth gan yr awdurdod lleol neu sefydliad partner;
	• bod yr unigolyn yn ei ystyried ei hun mewn perygl o fod yn ddigartref;
	Mae gan yr awdurdod lleol reswm i greu fod yr unigolyn debygol o fod yn ddigartref o fewn 56 diwrnod;
	• bod yr awdurdod lleol neu'r sefydliad partner o'r farn y bydd y cam cadarnhaol yn atal digartrefedd am y 6 mis canlynol o leiaf.
Data wedi newid (os oes angen)	• bod y cam cadarnhaol yn cael ei gymryd gan: yr awdurdod lleol; neu sefydliad partner, neu gyfuniad o'r awdurdod lleol ac un neu fwy o sefydliadau partner yn gweithio gyda'i gilydd;
	Dylid cofnodi achos fel atal digartrefedd lle mae awdurdod lleol yn cymryd cam gweithredu cadarnhaol i roi cymorth tai i rywun sy'n ystyried ei fod dan fygythiad o ddigartrefedd yn y dyfodol agos ac ni chyflawnir y cam gweithredu cadarnhaol hwn er mwyn cyflawni dyletswydd i sicrhau llety o dan y ddeddfwriaeth ddigartrefedd. Ni chaiff achos ei ystyried yn ataliad mwyach pan wneir penderfyniad drwy adran 73. Mae hyn yn gymwys ar gyfer y sawl y sawl y mae dyletswydd yn ddyledus iddynt o dan adran 66 yn unig.
Camau cadarnhaol	Nid oes modd cymryd cam cadarnhaol i atal digartrefedd pan fydd yr awdurdod yn fodlon bod rhywun bellach yn ddigartref (er enghraifft, ar ôl i'r awdurdod hysbysu'r unigolyn y gwnaed penderfyniad o dan adran 63 ei fod yn ddigartref). Yn dilyn yr hysbysiad o dan Adran 63 fod ymgeisydd yn ddigartref, bydd yr Awdurdod o dan ddyletswydd i gymryd camau rhesymol i helpu i sicrhau llety.
	Dylid cofnodi achos fel achos rhyddhad digartrefedd yn dilyn hysbysiad o dan adran 63 bod ceisydd yn gymwys ac yn ddigartref a bod cam gweithredu cadarnhaol yn cael ei gymryd i ryddhau'r achos o ddigartrefedd.
Sefydliad partner	Cam cadarnhaol' yw cymorth a ddarperir yn ychwanegol at gyngor a gwybodaeth gyffredinol ynglŷn â digartrefedd a'r camau atal digartrefedd a ddarperir o dan adran 60 o Ddeddf 2014. Rhaid darparu'r cymorth i unigolyn, ar sail gwaith achos, gyda'r nod benodol o sicrhau y bydd yr unigolyn ac aelodau'r cartref naill ai'n gallu aros yn eu llety presennol neu gael llety gwahanol. Mae'n rhaid cofnodi achosion mewn ffeiliau, a rhaid cadarnhau'r canlyniadau ar adeg eu cofnodi trwy system o sicrhau a rheoli ansawdd.
	Mae sefydliad partner yn unrhyw sefydliad sy'n cynorthwyo awdurdod lleol i fynd i'r afael â digartrefedd neu ei atal ac mae un ai'n:
Canlyniadau llwyddiannus	• cael ei ariannu gan yr awdurdod lleol i'w gynorthwyo i fynd i'r afael â digartrefedd neu ei atal; neu'n
	• sefydliad y mae'r awdurdod lleol yn cyfeirio cleientiaid ato am gymorth er mwyn helpu i atal yr unigolyn hwnnw rhag dod yn ddigartref.
	Er mwyn cofnodi cam cadarnhaol fel un llwyddiannus, rhaid bod yr awdurdod sy'n fodlon bod yr ymyrraeth yn debygol o atal neu leddfu digartrefedd am 6 mis o leiaf a fod y llety yn addas.
anlyniadau aflwyddiannus	Dylid cofnodi achosion ar gyfer y cyfnod casglu pryd y cymerwyd y cam cadarnhaol mewn gwirionedd.
	Mewn achosion lle cyflawnir y cam gweithredu cadarnhaol gan sefydliad partner, uwch swyddog (neu ymgynghorydd arall nad yw'n ymwneud yn uniongyrchol â'r achos) o'r sefydliad hwnnw ddylai wneud penderfyniadau ynghylch llwyddiant tebygol cyn iddo gael ei gofnodi fel achos llwyddiannus o atal digartrefedd neu ei ryddhau.
Hunangynhwysol	Diffinnir achosion lle'r oedd cam gweithredu cadarnhaol yn aflwyddianus fel achosion lle mae aelwydydd yn mynd at yr awdurdod tai lleol am help oherwydd i) maent yn ystyried eu bod yn ddigartref neu'n wynebu risg o fod yn ddigartref a bod cam gweithredu cadarnhaol wedi'i gyflawni yn dilyn derbyn adran 66 neu 73, ond y bu'n aflwyddiannus wrth geisio atal y risg neu ei ryddhau neu ii) bod cymorth wedi'i wrthod neu iii) diffyg cydweithrediad.
	Annedd hunangynhwysol yw llety sy'n cael ei feddiannu gan aelwyd sy'n gallu defnyddio baddon/cawod, toiled mewnlol a rhai cyfleusterau coginio iddynt hwy eu hunain yn unig. Bydd eiddo hunangynhwysol yn ymwneud ag un cytundeb rhentu sy'n gysylltiedig â'r eiddo.
Anhunangynhwysol	Annedd nad yw'n hunangynhwysol yw llety sy'n cael ei feddiannu gan aelwyd nad yw'n gallu defnyddio baddon/cawod na tholed mewnlol na rhai cyfleusterau coginio iddynt hwy eu hunain yn unig. Mae'r rheini fel rheol ar ffurf ystafell byw a chysgu, cyd-gartrefi, hostel neu llety fel hostel lle mae pob lle gwely yn cael ei ystyried fel rheol
	Nodir Cymhwysedd yn Atodlen 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 a Rheoliadau Dyrannu Tai a Digartrefedd (Cymhwysra) (Cymru) 2014.
Yn fwrriadol ddigartref	Gweler adran 77 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 am ddiffiniad o fwrriadoldeb.
Mewn angen blaenoriaethol	Yn dilyn cyflawni adran 73 o dan 74(2) neu 74(3) bydd angen i'r Awdurdod Lleol bennu a oes dyletswydd yn ddyledu i'r ceisydd o dan adran 75 (dyletswydd i sicrhau llety). Bydd dyletswydd yn ddyledus i geisydd os ystyrir ei fod mewn angen blaenoriaethol a'i fod yn anfwriadol ddigartref (mae adran 77 yn cynnwys diffiniad o fwrriadoldeb)
	Mae adran 70 Deddf Tai (Cymru) 2014 yn cynnwys y grwpiau sydd mewn angen blaenoriaethol, mae'r grwpiau hyn yn berthnasol ar gyfer darparu dyletswydd dros dro i roi llety (adran 68) a dyletswydd i letya (adran 75)
Cefnogi pobl	Mae'r Grant Rhaglen Cefnogi Pobl yn helpu pobl sy'n agored i niwed yng Nghymru osgoi digartrefedd a chadw eu hannibyniaeth. Mae llawer o'r cymorth a ddarperir drwy'r Grant yn ymwneud ag atal ac mae cysylltiadau clir gyda'r agenda atal fel y nodir yn Rhan 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Rhagwelir y bydd gwasanaethau cydgysylltiedig o fewn Awdurdodau Lleol yn ymwneud ag atal digartrefedd, a all gynnwys amrywiaeth o wasanaethau a ariennir o dan y Grant.

Canllawiau technegol ar gyfer llenwi'r ffurflen

Ebrill 2023 - Mawrth 2024

[Yn ôl i'r Hafan](#)

Llywio

Byddwch yn gallu symud o ddalen i ddalen trwy glicio ar yr hyperddolen briodol.
Er enghraifft, i ddychwelyd i'r hafan cliciwch yr hyperddolen "Yn ôl i'r Hafan".

Eitemau data gofynnol

Yn y daenlen hon, mae'r nodweddion canlynol i'r celloedd y mae angen data arnynt:



Bydd yr holl gelloedd y mae angen data arnynt yn cael eu lliwio'n glas golau.



Mae rhai celloedd yn deillio gwerthoedd o eitemau data eraill. Mae'r celloedd hyn wedi eu lliwio'n llwyd. Ni fyddwch yn gallu rhoi data i mewn i'r celloedd hyn.



Nid oes angen llenwi rhai celloedd am nad ydynt yn berthnasol. Mae'r celloedd hyn wedi eu lliwio'n llwyd tywyll. Ni fyddwch yn gallu rhoi data i mewn i'r celloedd hyn.

Os nad ydych yn gallu rhoi unrhyw eitem o ddata, gadewch y gell yn WAG. Peidiwch â rhoi testun (NA, N/A neu Heb ei gasglu ac ati) yn unrhyw gell ar wahân i'r celloedd sylwadau. Byddwn yn cymryd bod sero mewn unrhyw gell yn golygu cyfrif o sero ar gyfer yr eitem ddata hon.

Sylwadau



Mae bwlch gwyn wedi cael ei ddarparu gerllaw pob tabl ar gyfer sylwadau. Os oes unrhyw eitemau data ar goll yna mae'n rhaid ychwanegu sylw i'r daenlen.

Gwiriadau dilysu

Mae gwiriadau dilysu yn cynnwys gwirio am wallau synnwyr cyffredin. Mae'n rhaid datrys y gwallau hyn cyn cyflwyno'r daenlen trwy Afon.



Bydd eitemau data sy'n llwyddo yn y dilysu yn cael eu lliwio'n wyrdd.



Bydd eitemau data lle nad oes data'n cael ei ychwanegu, neu sy'n torri rheol ddilysu, yn cael eu lliwio'n goch. Dylech roi sero lle mae'r eitem ddata yn ddim, neu roi sylw.



Bydd eitemau data sydd ar goll gyda sylw wedi ei roi yn cael eu lliwio'n ambr.

Arweiniad Cyffredinol - Tabl 1

[Yn ôl at yr Hafan](#)

Nodiadau cyffredinol

- 0.1 Cartrefi sy'n gwneud cais o dan ddarpariaethau digartrefedd yn unol â gofynion Deddf Tai 2014 (Rhan 2):
[Deddf Tai 2014](#)
- 0.2 Mae'r ffurflen ddiartrefedd yn casglu data gan awdurdodau lleol Cymru i gyflawni eu dyletswyddau yn unol â deddfwriaeth ddiartrefedd (Rhan VII y Ddeddf uchod). Mae Côd y Canllawiau am Ddiartrefedd yn rhoi cyngor am y dyletswyddau hyn (Rhannau VI o Ddeddf Tai 1996 a 2 o Ddeddf 2014), drwygiedig 2015.
[Côd Canllawiau](#)
- 0.3 Mae'r nodyn yma yn rhoi canllawiau am sut i lenwi'r ffurflen digartrefedd trimisol sy'n casglu data am sut caiff deddfau am ddiartrefedd eu rhoi ar waith yng Nghymru.
- 0.4 Mae'r nodiadau hyn yn ymwneud â chyd-destun gofynion y Ddeddf Tai 2014 a ddaeth i rym ar 27 Ebrill 2015.
- Mae'r ffurflen yn sôn am nifer y cartrefi, nid unigolion.**
- 0.5 **Gallai pob aelwyd sy'n gymwys am gymorth yn arwain at 1, 2, neu 3 ganlyniadau.**
- Mae rhai rhannau yn y ffurflen yn gofyn am ddadansoddiad o gartrefi yn ôl ethnigrwydd. Ehangwyd y dosbarthau ethnig a defnyddir yn y ffurflen yma yn gymeradwy gan ganllawiau Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol, ac yn awr y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.
- 0.6 www.equalityhumanrights.com
- Mae'r dyletswyddau Cydraddoldeb Sector Cyhoeddus o dan y Deddf Cydraddoldeb 2010 yn bodoli i amddiffyn pobl rhag gwahaniaethu ar sail 'nodweddion gwarchoddedig'. Mae'r Deddf Cydraddoldeb 2010 yn diffinio nodweddion gwarchoddedig y rhai sy'n defnyddio gwasanaeth fel:
- Anabled;
 - Rhyw;
 - Ailbennu rhyw (hunaniaeth rywiol neu drawsrywiol);
 - Beichiogrwydd a mamolaeth;
 - Hill;
 - Crefydd neu grêd;
 - Cyfeiriadedd rhywiol;
 - Oedran.
- 0.7 Defnyddiwyd y 'nodweddion gwarchoddedig' yma yn Nhablau 1 i 5 o'r ffurflen yma.
- 0.8 Mae'r canllawiau yma yn ymwneud ag hunan dosbarthau ethnig gan unigolyn neu gartref.

Tabl 1: Aelwydydd sydd wedi cael cymorth yn ystod y flwyddyn - yn ôl rhyw ac oedran yr ymgeisydd

Cofnodwch yr aelwydydd lle gwnaethpwyd penderfyniadau yn ystod y flwyddyn yn ôl rhyw ac oedran yr ymgeisydd (tabl 1) yn unol â'r gofynion hysbysu yn Adran 84 ac Adran 63 o'r Ddeddf. Mae penderfyniadau Adran 63 (canlyniad yr asesiad) yn berthnasol i resi 5a a 5b yn unig. Mae'r holl ddata arall yn gysylltiedig â diweddu'r dyletswydd gyfatebol yn unol â hysbysiad adran 84.

Mae'r adrannau hyn yn cynnwys yr holl benderfyniadau terfynol a wnaethpwyd yn ystod y flwyddyn, pa bryd bynnag y gwnaethpwyd y cais, ar aelwydydd sy'n gwneud cais am lety neu help i gadw neu gael llety lle'r oedd eich awdurdod yn credu bod yr ymgeisydd yn ddiartref neu mewn perygl o fod yn ddiartref (fel y'i diffinnir yn Adran 55 o'r Ddeddf).

Dylai pob cartref cymwys, digartref yn anfwriadol ac yn flaenoriaeth gael eu cynnwys, hyd yn oed os ydyn nhw am gael eu cyfeirio at awdurdod lleol arall yn unol â rheolau cysylltu lleol. Ar y llaw arall, ni ddylech chi gynnwys cartrefi sydd wedi'u cyfeirio atoch chi gan awdurdodau eraill.

Nodwch y dylai unrhyw 16/17 mlwydd oed sydd i'w gweld yn gymwys am gymorth cael eu dosbarthu yn awtomatig fel angen blaenoriaeth yn ôl Cód Canllawiau.

Dylid eithrio ceisiadau sy'n cael eu tynnu'n ôl cyn cwblhau'r asesiad o dan adran 62.

Ni ddylid cynnwys ceiswyr lloches; dylid cynnwys cartrefi sydd wedi'u derbyn yn ddiartref lle mae'r ymgeisydd wedi cael 'caniatâd i aros' o dan ddeddfwriaeth mewnfudiad yn unig.

Rhes 0.5 Gyfanswm y ceisiadau am gymorth a arweiniodd at asesiad o dan adran 62

- Rhes 1 Cartrefi anghymwys**
Achosion lle ystyrir bod ceiswyr yn anghymwys yng nghyd-destun mewnfudo fel y nodir yn Atodlen 2 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 a Rheoliadau Dyranau Tai a Digartrefedd (Cymwysu) (Cymru) 2014. Mae ceiswyr yn gymwys ar gyfer Cyngor yn unig.
- Rhes 2 Cymwys, ond ddim yn ddiartref neu dan fgythiad o ddiartrefedd**
Achosion lle, yn dilyn asesiad, mae ceiswyr yn gymwys ond nid ydynt yn ddiartref neu dan fgythiad o ddiartrefedd o fewn diffiniad Adran 55. Mae ceiswyr yn gymwys ar gyfer Cyngor yn unig.
- Rhes 3 i) Cymwys, dan fgythiad o fod yn ddiartref, cymorth atal a ddarperir (Adran 66)**
Nifer y canlyniadau
Cyfanswm nifer y canlyniadau a wnaed mewn perthynas â rhyddhau drwy adran 66. Dylai hyn fod yn hafal i gyfanswm rhesi 3ii), 3iii), 3iv), 3v), 3vi), 3vii) a 3viii).
- Rhes 3 ii) Atal llwyddiannus**
Achosion lle cynorthwywyd ceiswyr o dan 'ddyletswydd atal' (adran 66) a chwasant eu rhyddhau drwy adran 67.3 (gan nad yw'r ceisyydd yn ddiartref mwyach ac mae ganddo lety addas sy'n debygol o bara 6 mis). Gall hyn fod o ganlyniad i ymyriad gan yr Awdurdod Lleol neu beidio.
- Rhes 3 iii) Atal Aflwyddiannus**
Achosion lle gwrthododd y ceiswyr y cynnig o lety tra'n cael cymorth o dan 'ddyletswydd atal' adran 66 a chânt eu rhyddhau drwy adran 67.4
- Rhes 3 iv) Cymorth Gwrthod**
Cases where applicants refused an offer of accommodation whilst being assisted under the 'prevention duty' section 66 and are discharged via section 67.4

Rhes 3 v)	Diffyg cydweithrediad Achosion lle mae ceiswyr wedi methu â chydweithredu tra'n cael cymorth o dan ddyletswydd atal adran 66. Felly maent wedi cael eu rhyddhau drwy adran 79.5.
Rhes 3 vi)	Tynnu cais yn ôl Achosion lle gwrthododd ymgeiswyr gynnig llety wrth iddynt gael eu cynorthwyo o dan 'ddyletswydd atal' adran 66 ac sy'n cael eu gollwng trwy adran 67.4
Rhes 3 vii)	O'r rhain sydd oherwydd colli cyswilt Achosion lle mae ymgeiswyr wedi methu â chydweithredu wrth iddynt gael eu cefnogi o dan ddyletswydd atal adran 66. Felly maent wedi cael eu gollwng trwy adran 79.5.
Rhes 3 viii)	Rhesymau eraill Achosion lle mae dyletswydd at geiswyr wedi dod i ben tra roeddent yn cael cymorth o dan ddyletswydd atal adran 66, naill ai oherwydd eu hymddygiad neu newid mewn statws. Achosion sydd wedi cael eu rhyddhau drwy adrannau 79.2, 79.3 a 79.4
Cymwys, digartref, yn ddarostwngedig i'r ddyletswydd i helpu i sicrhau	
Rhes 4 i)	Nifer y canlyniadau Cyfanswm nifer y canlyniadau a wnaed mewn perthynas â rhyddhau drwy adran 73. Dylai hyn fod yn hafal i gyfanswm rhesi 4ii), 4iii), 4iv) 4v), 4vi), 4vii) a 4viii) .
Rhes 4 ii)	Llwyddo i ryddhad Achosion lle cynorthwyr ceiswyr o dan ddyletswydd rhyddhad adran 73 a chânt eu rhyddhau drwy adran 74.4 (gan nad yw'r ymgeisydd yn ddigartref mwyach ac mae ganddo lety addas sy'n debygol o bara 6 mis). Gall hyn fod o ganlyniad i ymriad gan yr Awdurdod Lleol neu beidio.
Rhes 4 iii)	Aflwyddiannus i ryddhad Achosion lle bu ymgais i ddatrys digartrefedd ceisydd yn aflwyddiannus yn dilyn dyletswydd 'rhyddhad' adran 73. Cafodd y ceiswyr eu rhyddhau drwy adran 74.2 a 74.3 yn unig.
Rhes 4 iv)	Cymorth Gwrthod Achosion lle gwrthododd y ceiswyr y cynnig o lety tra'n cael cymorth o dan 'ddyletswydd rhyddhad' adran 73 a chânt eu rhyddhau drwy adran 74.5
Rhes 4 v)	Diffyg cydweithrediad Achosion lle mae ceiswyr, tra'n cael cymorth o dan 'ddyletswydd rhyddhad' adran 73, wedi methu â chydweithredu. Felly maent wedi cael eu rhyddhau drwy adran 79.5.
Rhes 4vi)	Tynnu cais yn ôl Mae'r Awdurdod yn fodlon bod yr ymgeisydd wedi tynnu ei gais yn ôl (Adran 79.4), neu fod yr ymgeisydd wedi gofyn am / datgan nad ydynt angen cymorth bellach oddi wrth yr Awdurdod yn dilyn canlyniad yr asesiad Adran 62 .
Rhes 4vii)	O'r rhain sydd oherwydd colli cyswilt Mae'r Awdurdod yn fodlon nad oes angen cymorth ar yr ymgeisydd bellach yn dilyn canlyniad asesiad Adran 62 oherwydd na fu'n bosib cysylltu â'r ymgeisydd am gyfnod o leiaf 6 wythnos ac mae'r Awdurdod yn fodlon fod wedi cymryd camau rhesymol i gysylltu â'r ymgeisydd .
Rhes 4viii)	Rhesymau eraill Achosion lle mae dyletswydd at geiswyr wedi dod i ben tra roeddent yn cael cymorth o dan ddyletswydd 'rhyddhad' adran 73, naill ai oherwydd eu hymddygiad neu newid mewn statws. Achosion sydd wedi cael eu rhyddhau drwy adrannau 79.2 a 79.3
Cymwys, yn ddigartref ond nid yn flaenoriaeth	
Rhes 5a i)	Nifer y canlyniadau Achosion lle na ystyrir bod ceiswyr a fu'n aflwyddiannus yn ystod y cam rhyddhad (rhes 4iii) mewn angen blaenoriaethol o dan adran 70.
Cymwys, yn ddigartref ac yn flaenoriaeth - ond yn anfwriadol	
Rhes 5b i)	Nifer y canlyniadau Cymwys, yn ddigartref ac yn flaenoriaeth - ond yn anfwriadol (Adran 77)
Cymwys, yn ddigartref yn anfwriadol ac yn flaenoriaeth (Adran 75)	
Rhes 5c i)	Nifer y canlyniadau Cyfanswm nifer y canlyniadau a wnaed mewn perthynas â rhyddhau adran 75 o dan adran 76. Mae hyn yn hafal i gyfanswm rhesi 5cii), 5ciii), 5civ), 5cv), 5cvi), a 5cvii).
Rhes 5c ii)	Rhyddhawyd yn gadarnhaol Achosion lle mae'r ceiswyr a gynorthwywyd o dan ddyletswydd 'terfynol' (adran 75) wedi cael eu rhyddhau yn gadarnhaol drwy adrannau 76.2a a 76.2b. Gall hyn fod o ganlyniad i ymriad gan yr Awdurdod Lleol neu beidio. Mae'r achos o ddigartrefedd wedi'i ryddhau yn llwyddiannus.
Rhes 5c iii)	Cymorth Gwrthod Achosion lle gwrthododd y ceiswyr y cynnig o lety addas tra'n cael cymorth o dan ddyletswydd 'derfynol' adran 75 a chânt eu rhyddhau drwy adran 76.3.
Rhes 5c iv)	Diffyg cydweithrediad Achosion lle mae ceiswyr sydd wedi cael cymorth o dan ddyletswydd 'derfynol' adran 75 wedi methu â chydweithredu. Felly maent wedi cael eu rhyddhau drwy adran 79.5.
Rhes 5vi)	Tynnu cais yn ôl Mae'r Awdurdod yn fodlon bod yr ymgeisydd wedi tynnu ei gais yn ôl (Adran 79.4), neu fod yr ymgeisydd wedi gofyn am / datgan nad ydynt angen cymorth bellach oddi wrth yr Awdurdod yn dilyn canlyniad yr asesiad Adran 62 .
Rhes 5vi)	O'r rhain sydd oherwydd colli cyswilt Mae'r Awdurdod yn fodlon nad oes angen cymorth ar yr ymgeisydd bellach yn dilyn canlyniad asesiad Adran 62 oherwydd na fu'n bosib cysylltu â'r ymgeisydd am gyfnod o leiaf 6 wythnos ac mae'r Awdurdod yn fodlon fod wedi cymryd camau rhesymol i gysylltu â'r ymgeisydd .
Rhes 5vii)	Rhesymau eraill Achosion lle mae ymgeiswyr, wrth gael eu cefnogi o dan y ddyletswydd i sicrhau llety (adran 73), wedi cael terfynu eu dyletswydd o ganlyniad i gamgymeriad yn y ffeithiau neu newid statws cymhwysedd. Achosion sydd wedi cael eu gollwng trwy adrannau 79.2 a 79.3.
Rhes 6	Mae cyfanswm nifer y canlyniadau yn hafal i swm rhesi 1, 2, 3i), 4i), 5ai), 5bi) a 5ci).
Rhes 7	Mae cyfanswm nifer yr ataliadau/rhyddhad yn hafal i swm rhesi 3ii), 4ii), 5cii).

Arweiniad Cyffredinol - Tabl 2[Yn ôl at yr Hafan](#)

Dylai achosion lle mae camau positif wedi'u cymryd i atal digartrefedd rhag digwydd gael eu cofnodi ar y ffurflen hon ar wahân i achosion lle mae camau positif wedi'u cymryd i leddfu digartrefedd sy'n gysylltiedig â chamau positif ar ôl i'r aelwyd fod yn ddigartref.

Mewn achos lle gall mwy nag un cam fod wedi cyfrannu at atal aelwyd rhag bod yn ddigartref. Yng ngolofn a) Prif gam: cofnodwch y cam mwyaf arwyddocaol a gymerwyd ym mhob achos. Os oes mwy nag un cam mewn achos sydd wedi cyfrannu at atal aelwyd rhag bod yn ddigartref dylech gofnodi'r cam mwyaf arwyddocaol o dan y prif gam ac yna cofnodi'r ail gam mwyaf arwyddocaol o dan y cam eilaidd ac, os yn berthnasol, y trydydd cam mwyaf arwyddocaol o dan y cam trydyddol.

Rhes 1	<p>Colofn a Achosion lle mae adran 66 wedi dod i ben gan nad yw'r unigolyn o dan fygythiad o ddigartrefedd mwyach a bod llety addas ar gael iddo sy'n debygol o bara am 6 mis.</p> <p>Colofn b Achosion lle mae adran 73 wedi dod i ben gan nad yw'r unigolyn yn ddigartref mwyach a bod llety addas ar gael iddo sy'n debygol o bara am 6 mis.</p>
Rhes 2	<p>Colofn a Achosion lle mae camau cadarnhaol wedi cael eu cymryd a bod yr unigolyn yn dal i wynebu bygythiad o fod yn ddigartref neu'n canfod ei hun yn ddigartref.</p> <p>Colofn b Achosion lle mae camau cadarnhaol wedi cael eu cymryd a bod yr unigolyn yn dal yn ddigartref.</p>
Rhes 3	<p>Dylai cyfanswm yr achosion fod yn hafal i:</p> <p>Colofn a Pob un a dderbyniwyd o dan adran 66.</p> <p>Colofn b Pob un a dderbyniwyd o dan adran 73 (gall hyn gynnwys y rhai sy'n symud o 66 i 73 o ganlyniad i fod yn ddigartref).</p>
<p>Rhes 4: Digartrefedd wedi'i atal - yr aelwyd yn gallu aros yn y cartref presennol, o ganlyniad i:</p>	
<p>Mae Rhes 4 yn cynnwys y camau pwysicaf er mwyn atal digartrefedd. Er mwyn i rywun gael ei gynnwys yn y rhes hon rhaid bod dyletswydd iddo o dan adran 66 (Dyletswydd i helpu i atal digartrefedd).</p>	
Rhes 4 i)	<p>Cyfyngu a chymodi Cyfyngu rhwng partion mewn anghydfod er mwyn dod i gytundeb lle gellir atal digartrefedd. Byddai hyn yn berthnasol i anghydfod teuluol, lle mae'r bygythiad o fod yn ddigartref yn cael ei ddatrys drwy'r ymyriad hwn. Mae cyfyngu'n cynnwys: • cyfyngwyr teuluol allanol neu fewnol sydd wedi cael eu hyfforddi. Gallai hwn fod yn wasanaeth cyfyngu allanol megis Relate neu'n wasanaeth mewnol gan awdurdod lleol lle darparwyd hyfforddiant mewn cyfyngu. Mae cymodi yn cynnwys: • ymweliadau cartref, lle gallai rhywun fod mewn perygl o fod yn ddigartref oherwydd bygythiad o gael ei gau allan gan rieni, perthnasau eraill neu ffrindiau. • gwaith cymodi gan sefydliad partner megis cwnsela ieuencid.</p>
Rhes 4 ii)	<p>Sydd ar gyfer person ifanc (16-25) Cyfyngu a chymodi i berson ifanc sydd mewn perygl o fod yn ddigartref, lle mae person ifanc yn cyfeirio at berson ifanc rhwng 16 a 25 oed. (Dylai'r rhain gael eu cynnwys yn Rhes 4i).</p>
Rhes 4 iii)	<p>Taliadau ariannol Byddai hyn yn cynnwys taliadau tai yn ôl disgrisiwn, ac unrhyw dâl o gronfa atal (os oes un ar gael) er mwyn cadw'r llety presennol. Yn yr adran hon hefyd dylid cynnwys taliadau i landlordiaid er mwyn datrys problemau sy'n cael eu hachosi o ganlyniad i ddi-frod gan denantiaid ac unrhyw daliadau o gronfa atal er mwyn datrys ôl-ddyledion rhent.</p>
Rhes 4 iv)	<p>Cyngor ynglŷn â Dyledion a Materion Ariannol Cyfeirio'n llwyddiannus at gyngor ynglŷn â dyledion neu faterion ariannol lle mae'r cyngor/ camau a ddarparwyd yn galluogi'r unigolyn i aros yn ei gartref presennol. Byddai hyn yn cynnwys aildrefnu trefniadau credyd/ dyled ar wahân i rent, cynnal trafodaethau gyda chredydwy'r a chyngor ar gyllidebu a rheoli arian.</p>
Rhes 4 v)	<p>Datrys problemau Budd-daliadau Tai a Lles Os yw'r bygythiad o fod yn ddigartref yn digwydd o ganlyniad i beidio â thalu budd-daliadau tai / cymryd gordaliad yn ôl / sancsiynau ac ati a bod yr ymyriad yn datrys y broblem. Ar gyfer y canlyniad hwn rhaid derbyn Budd-dal Tai a rhaid i'r bygythiad digartrefedd gael ei ddileu. Bydd hyn yn cynnwys sefydlu taliadau uniongyrchol i landlordiaid. Nid yw hyn yn cynnwys taliadau tai yn ôl disgrisiwn.</p>
Rhes 4vi)	<p>• pan fo awdurdod wedi derbyn dyletswydd o dan Adran 192 bod unigolyn yn ddigartref yn anfwriadol ac heb fod Os yw'r bygythiad yn cael ei achosi gan ôl-ddyledion, byddai hyn yn cynnwys sefydlu cynlluniau ad-dalu er mwyn dileu'r bygythiad o fod yn ddigartref. Dylid cofnodi atebion budd-daliadau tai yn adran (v).</p>
Rhes 4vii)	<p>Mesurau i atal cam-drin domestig Byddai hyn yn cynnwys defnyddio cynlluniau tebyg i noddfa, cynlluniau gwella diogelwch, er mwyn galluogi'r unigolyn i aros yn ei gartref presennol. Byddai cyfeirio at Gyngorydd Annibynnol ar Drais Domestig yn cael ei gynnwys.</p>

Arweiniad Cyffredinol - Tabl 2

[Yn ôl at yr Hafan](#)

Rhes 4viii)	<p>Trafodaethau neu eiriolaeth gyfreithiol er mwyn sicrhau bod rhywun yn gallu aros mewn llety yn y sector rhentu preifat</p> <p>Byddai hyn yn cynnwys trafodaethau rhwng y Landlord a'r Tenant er mwyn datrys anawsterau ar wahân i broblemau rhent. Gallai hyn gynnwys ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, niwsans cymdogion a/neu lle mae'r landlord wedi rhoi rhybudd oherwydd ymddygiad sy'n torri amodau tenantiaeth. Byddai difrod i eiddo'n cael ei gynnwys dan yr adran hon. Mae hyn hefyd yn cynnwys camau er mwyn datrys bygythiad i droi rhywun allan yn anghyfreithlon neu i dderbyn tenant sydd wedi cael ei droi allan yn anghyfreithlon yn ôl neu eiriolaeth llys sirol neu waith desg llys gan yr awdurdod lleol neu ei bartneriaid lle mae cynrychiolaeth yn y llys yn arwain at ddileu, gwrthod neu ohirio achos.</p>
Rhes 4ix)	<p>Ymyriadau ôl-ddyledion morgais neu achub morgais</p> <p>Byddai hyn yn cynnwys cyfeirio a derbyn ar gyfer rhaglenni achub morgais a thrafodaethau gyda darparwyr morgais er mwyn lleihau taliadau, ac addasu cynnyrch er mwyn gwneud llety'n gynaliadwy. Mae hyn hefyd yn cynnwys darparu cefnogaeth i alluogi pobl i ailforgeisio tŷ, newid i forgais llog yn unig er mwyn lleihau alldaliadau neu newid i gyd-berchnogaeth.</p>
Rhes 4x)	<p>Darparu cymorth neu gefnogaeth arbenigol arall ar gyfer problemau</p> <p>Byddai hyn yn cynnwys pob cymorth arall ar wahân i'r ymyriadau a restrwyd uchod.</p> <p>Mae hyn yn cynnwys er enghraifft:</p> <ul style="list-style-type: none"> • rhaglenni addysg tenantiaeth. • Ymyriadau mewn argyfwng lle mae perygl y bydd rhywun yn ddigartref yn fuan oherwydd ei fod yn methu â chael trefn ar ei faterion ariannol a bod ymyriad mewn argyfwng neu gefnogaeth argyfwng yn cael ei darparu; • cyfeirio rhywun at asiantaeth er mwyn cael cymorth â mater yn ymwneud â thai; • datrys ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y sector cymdeithasol. • mynd i'r afael â phroblem tai sydd mewn cyflwr gwael drwy gymryd camau yn erbyn landlordiaid neu grantiau i wella cyflwr tai; • addasiadau i'r eiddo; <p>Rhowch sylwadau i egluro'r math o gymorth yr adroddir amdano yn y rhes hon.</p>
Rhes 4xi)	<p>Cyfanswm yr achosion sy'n gallu aros yn eu cartref presennol</p> <p>Cyfanswm yr achosion sy'n gallu aros yn eu cartref presennol. Mae'r nifer hwn yn cael ei gynnwys yn rhes 1 colofn a. Dyma gyfanswm rhannau 4 (i), (iii), (iv), (v), (vi), (vii), (viii), (ix), (x) uchod.</p>
<p>Rhes 5; Atal neu osgoi digartrefedd - cynorthwyo'r teulu i ddod o hyd i lety arall, ar ffurf:</p>	
<p>Rhaid i bob llety amgen fod yn addas (Adran 59).</p>	
<p>Colofn a</p>	
<p>Dim ond i'r rhai y mae dyletswydd iddynt o dan adran 66 y mae hyn yn berthnasol.</p>	
<p>Colofn b</p>	
<p>Mae hyn yn berthnasol i'r rhai hynny y mae dyletswydd iddynt dan adran 73.</p>	
Rhes 5i)	<p>Unrhyw fath o lety anhunangynhwysol â chymorth.</p> <p>Byddai hyn yn cynnwys prosiectau sy'n cael eu hariannu drwy Cefnogi Pobl a rhaid cael trefniadau gyda'r awdurdod lleol ar gyfer symud ymlaen pan na fydd angen y math hwn o lety mwyach. Rhaid iddo fod yn debygol o bara am 6 mis.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dylid cynnwys hostel neu lety a rennir â chymorth a threfniadau symud ymlaen • Dylid cynnwys cynlluniau tŷ llety â chymorth a chyfeiriadau llwyddiannus at brosiectau tai â chymorth • Ni ddylid cynnwys lloches nos a llety arhosiad byr mewn argyfwng ar gyfer pobl sy'n cysgu ar y stryd megis canolfannau asesu achosion brys.
Rhes 5ii)	<p>Llety hunangynhwysol â chymorth</p> <p>Mae'r llety a ddarparwyd yn cynnwys cymorth i'r unigolyn gadw'i denantiaeth fel un o amodau'r denantiaeth.</p>
Rhes 5iii)	<p>Llety sector rhentu preifat gyda chynllun cymhelliant landlord (e.e. bond heb arian, ffi darganfyddwr, blaendal, rhent ymlaen llaw, tâl yswiriant landlord)</p> <p>llety arall ar gael a'i dderbyn gan yr ymgeisydd o ganlyniad uniongyrchol o ddefnyddio cymhelliant landlord. Bydd hyn yn cynnwys talu rhent ymlaen llaw, bond diogelwch, bond heb arian, yswiriant, gwasanaeth rheoli, darparu cymorth i landlord neu'r tenant ac ati Mae'r cymhelliad gellir darparu gan 3ydd parti yn dilyn yr atgyfeiriad Awdurdod Lleol.</p>
Rhes 5iv)	<p>llety yn y sector rhentu preifat heb cynllun cymhelliant landlord</p> <p>Mae llety amgen yn cael ei ddarparu ac yn cael ei dderbyn gan yr ymgeisydd. Nid yw wedi cael ei sicrhau drwy gynllun cymhelliant awdurdod lleol neu landlord 3ydd parti. Gallai hyn gynnwys unigolyn yn dod o hyd i'w lety sector rhentu preifat ei hun neu'r Awdurdod Lleol yn darparu manylion a/neu'n trefnu cyfleoedd i weld tai.</p>

Arweiniad Cyffredinol - Tabl 2[Yn ôl at yr Hafan](#)

Rhes 5v)	Llety wedi'i drefnu gyda ffrindiau neu berthnasau Llety wedi'i sicrhau, ac yn debygol o fod ar gael am 6 mis. Nid yw hyn yn cynnwys aros dros dro gyda gwahanol ffrindiau a theulu. Rhaid i'r unigolyn gael ei ystafell wely ei hun a bydd y llety ar gael iddo ei ddefnyddio fel ei brif gartref. Mae hyn yn cynnwys achosion lle'r oedd yr unigolyn yn ddigartref o dan adran 73 ond ei fod wedi gallu mynd yn ôl adref o ganlyniad i gyfryngu.
Rhes 5vi)	Tai cymdeithasol - Awdurdod Lleol Llety ar rent yn cael ei ddarparu ac yn cael ei dderbyn drwy unrhyw Awdurdod Lleol. Rhaid iddo fod yn rhan o stoc ALI. Gall hyn gynnwys llety ar brydles ac sy'n debygol o fod ar gael am 6 mis.
Rhes 5vii)	Tai cymdeithasol - landlord cymdeithasol cofrestredig Llety ar rent yn cael ei ddarparu ac yn cael ei dderbyn drwy unrhyw Landlord cymdeithasol cofrestredig (Cymdeithas dai). Rhaid iddo fod yn rhan o stoc landlord cymdeithasol cofrestredig. Gall hyn gynnwys llety ar brydles ac sy'n debygol o fod ar gael am 6 mis.
Rhes 5viii)	Cynllun perchentyaeth cost isel, ateb marchnad i dai cost isel Mae llety'n cael ei ddarparu ac yn cael ei dderbyn drwy gynllun perchentyaeth cost isel neu ateb marchnad i dai cost isel megis cynllun rhentu canolradd ac yn debygol o fod ar gael am 6 mis.
Rhes 5ix)	Cyfanswm yr achosion sydd wedi cael cymorth i gael llety arall Mae'r ffigur hwn ar gyfer pob achos lle llwyddwyd i atal digartrefedd drwy ddarparu a derbyn llety arall cyn colli cartref (colofn a). Mae colofn b ar gyfer achosion lle llwyddwyd i osgoi digartrefedd drwy gynnig llety arall. (Dyma gyfanswm rhannau 5 (i) - 5 (viii) uchod.)

[Yn ôl at yr Hafan](#)

Tabl 3 - Cartrefi sy'n gymwys yn ôl categori blaenoriaeth a math o gartref

Cofnodwch nifer y cartrefi oedd yn gymwys i gael cymorth, oedd yn ddigartref yn anfwriadol ac yn angen blaenoriaeth yn ystod y flwyddyn.

Dylai cyfanswm nifer o'r math o gartrefi wedi'u cofnodi yn y tabl yma bod yn gyfartal i'r cyfanswm wedi'i gofnodi yn:

- rhes 5c i) yn Nhabl 1;
- rhes 5c i) yn Nhabl 5; a'r
- cyfanswm a gofnodwyd ar res 13 yn Nhabl 4d.
- cyfanswm a gofnodwyd ar res 12 yn Nhabl 7.

Mae'r categorïau angen blaenoriaethol isod yn cael eu diffinio yn Adran 70 o'r Ddeddf. Mae rhagor o ganllawiau ar y categorïau i'w gweld yng Nghod Canllawiau Digartrefedd diwygiedig 2016.

Mae gan y canlynol angen blaenoriaeth i lety:

- merch feichiog neu rywun mae hi'n byw gyda neu mae disgwyl rhesymol y byddai hi'n gwneud hynny;
- rhywun sy'n byw â phlant sy'n dibynnu arno/arni neu rywun y byddech chi'n disgwyl i fyw gydag e/hi;
- rhywun bregus oherwydd henaint, salwch neu anabledd y meddwl, anabledd corfforol neu unrhyw reswm penodol arall, neu rywun y byddech chi'n disgwyl i fyw ag unigolyn o'r fath;
- rhywun digartref neu sydd mewn perygl o fod yn ddigartref o ganlyniad i argyfwng megis llifogydd, tân neu drychineb arall;

- rhywun digartref ac ar y stryd;
- rhywun sy'n gadael gofal neu mewn perygl dirfawr o gael eu cam-drin yn rhywiol neu'n ariannol (18 – 21 oed);
- rhywun 16 neu 17 oed;
- rhywun sy'n dianc rhag trais yn y cartref neu fygythiad o drais yn y cartref;
- rhywun sy'n ddigartref ar ôl gadael y lluoedd arfog; a
- cyn garcharor sy'n agored i niwed oherwydd ei fod wedi cwblhau dedfryd o garchar yn unol ag ystyr adran 76 o Ddeddf Pwerau Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000, ar ôl cael ei remandio mewn carchar neu ei draddodi i'r carchar gan orchymyn llys neu ar ôl cael ei remandio i lety cadw ieuencid o dan adran 91(4) o Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwy'r 2012.

Os oes mwy nag un categori yn berthnasol, dewiswch y categori sy'n amharu fwyaf ar y cartref ar gyfer y penderfyniad am angen blaenoriaeth. Mewn cartrefi â phlant dibynnol gydag aelod o'r cartref yn feichiog, dylai'r plant sydd ar fin cael eu geni cael eu cyfrif ymhlith nifer y plant yn y cartref.

Rhes 3 | Cynhwyswch salwch cronig o dan anabledd corfforol neu salwch meddwl fel bo'n briodol.

- Mae rhesymau arbennig eraill yn cynnwys:
- Unrhyw trais, camdrin neu aflonyddwch arall;
 - Camddefnyddio alcohol neu sylweddau;
 - Y rhai dros 21 oed sy'n agor i niwed.

Rhes 3 iv)

Mewn achosion lle mae cartref wedi'i dderbyn yn ddigartref ac mae'r ymgeisydd wedi cael 'caniatâd i aros' o dan ddeddfwriaeth mewnfudiad yna recordiwch yr achosion o dan 'Rhesymau arbennig arall'.

[Yn ôl at yr Hafan](#)**Tabl 4 a,b,c,d - Aelwydydd Cymwys yn ôl y prif resymau dros gollir cartref sefydlog diwethaf a'r math o aelwyd**

Dylech nodi'r cartref ochr yn ochr â'r prif reswm dros golli eu lle sefydlog diwethaf i fyw. Mae'r rhain fel arfer yn cynnwys manau oedd yn perthyn i'r cartrefi, rhywle roedden nhw'n ei rentu, neu'n gartref rhieni pobl sengl. Ond, gall gynnwys pobl oedd yn byw gyda'u rhieni neu berthynas/frindiau eraill am gyfnod maith (neu oedd i fod am gyfnod maith).

Cofnodwch y cartref ochr yn ochr â'r prif reswm os oes mwy nag un.

Rhes 6 | Ni ddylai'r categori 'colli llety rhent neu lety clwm' gynnwys achosion lle mae teulu wedi colli llety oherwydd ôl-ddyledion rhent. Dylid cofnodi hyn o dan 'ôl-ddyledion rhent'.

Rhes 8 | Dylai'r categori 'eiddo presennol yn anfforddiadwy' gynnwys achosion lle mae unigolyn wedi canfod ei hun yn ddigartref oherwydd ei fod yn methu â fforddio'r rhent neu'r morgais ar ei gartref a'i fod wedi cymryd camau cyn i ôl-ddyledion rhent neu forgais grynhoi a bod gorchmynion troi allan neu adfeddiannu wedi'u rhoi.

Rhes 9 | Dylai'r categori 'eiddo presennol yn anaddas' gynnwys achosion lle nad yw'r cartref yn addas yn ffisegol erbyn hyn. Bydd hyn yn cynnwys er enghraifft:

- Pobl sy'n dychwelyd o ysbty ac sy'n methu â byw yn yr eiddo mwyach nes bydd wedi cael ei addasu;
- Problemau amgylcheddol yn gysylltiedig â'r eiddo yn golygu na all neb fyw ynddo nes bydd gwaith wedi cael ei wneud;
- Gortlenwi, e.e. babi newydd, aelod o'r teulu'n dychwelyd, ac ati.

Rhes 11 | Yn achos teulu y derbyniwyd ei fod yn ddigartref, os yw'r ymgeisydd wedi cael 'caniatâd i aros' dan ddeddfwriaeth mewnfudo dylid cofnodi'r achosion hyn o dan 'mewn sefydliad/gofal'.

Rhes 12 | Mae arall yn cynnwys:

- Digartref mewn argyfwng (er enghraifft ar ôl tân neu lifogydd);
- Wedi dychwelyd ar ôl bod dramor;
- Yn cysgu ar y stryd;
- Mewn hostel neu loches;
- Pryder ynghylch iechyd (corfforol neu feddyliol);

Tabl 4a: Aelwydydd a ganfuwyd mewn perygl o fod yn ddigartref yn ystod y blwyddyn. Y prif reswm dros fod mewn perygl o fod yn ddigartref yn ôl math o aelwyd (Adran 66)

Dylid cofnodi'r prif reswm dros gollir cartref sefydlog diwethaf ar gyfer Teuluoedd y canfyddir eu bod dan fgygythiad o fod yn ddigartref yn ystod y flwyddyn. Dylai hyn gynnwys achosion sy'n llwyddiannus ac achosion sy'n aflwyddiannus.

Tabl 4b: Aelwydydd y canfuwyd eu bod yn gymwys, yn ddigartref ac yn destun dyletswydd i helpu i sicrhau yn ystod y flwyddyn. Y prif reswm dros gollir cartref sefydlog diwethaf yn ôl y math o aelwyd

Dylid cofnodi'r prif reswm dros gollir cartref sefydlog diwethaf ar gyfer Teuluoedd y canfyddir eu bod yn gymwys, yn ddigartref ac yn destun dyletswydd i helpu i sicrhau yn ystod y flwyddyn.

Dylai cyfanswm yr aelwydydd o'r fath a gofnodir yn y tabl hwn fod yn hafal i'r cyfanswm a gofnodwyd yn:

- rhes 4 i) yn Nhabl 1; a
- rhes 4 i) yn Nhabl 5.

Tabl 4c: Aelwydydd y canfuwyd eu bod yn gymwys, yn ddigartref ond nid mewn angen blaenoriaethol neu'n ddigartref, mewn angen blaenoriaethol ond yn fwriadol felly yn ystod y flwyddyn. Y prif reswm dros gollir cartref sefydlog diwethaf yn ôl y math o aelwyd

Dylid cofnodi'r prif reswm dros gollir cartref sefydlog diwethaf ar gyfer Teuluoedd y canfyddir eu bod yn gymwys, digartref ond nid mewn angen blaenoriaethol neu'n ddigartref, mewn angen blaenoriaethol ond yn fwriadol felly yn ystod y flwyddyn.

Dylai cyfanswm y teuluoedd o'r fath a gofnodir yn y tabl hwn fod yn hafal i'r cyfanswm a gofnodwyd yn y canlynol:

- cyfanswm rhes 5a i) a 5b i) yn Nhabl 1; a
- cyfanswm rhes 5a i) a 5b i) yn Nhabl 5.

Tabl 4d: Aelwydydd a ganfuwyd yn gymwys, yn anfwriadol ddigartref ac mewn angen blaenoriaethol yn ystod y flwyddyn. Y prif reswm dros gollir cartref sefydlog diwethaf yn ôl math o aelwyd (Adran 75)

Dylid cofnodi'r prif reswm dros gollir cartref sefydlog diwethaf ar gyfer Teuluoedd y canfyddir eu bod yn gymwys, yn ddigartref yn anfwriadol ac mewn angen blaenoriaethol yn ystod y flwyddyn.

Dylai cyfanswm y teuluoedd o'r fath a gofnodir yn y tabl hwn fod yn hafal i'r cyfanswm a gofnodwyd yn:

- rhes 5c i) yn Nhabl 1;
- y cyfanswm a gofnodwyd yn Nhabl 3;
- rhes 5c i) yn Nhabl 5; a
- y cyfanswm a gofnodwyd yn Nhabl 7.

Arweiniad Cyffredinol - Tablau 5, 6 a 7

[Yn ôl at yr Hafan](#)**Tabl 5: Aelwydydd am gymorth wedi cael ei ddarparu yn ystod y flwyddyn - yn ôl grŵp ethnig yr ymgeisydd**

Dylid cofnodi'r teuluoedd y gwnaethpwyd penderfyniadau ar eu cyfer yn ystod y flwyddyn yn ôl Grŵp Ethnig yr ymgeisydd (tabl 5) yn unol â'r gofynion hysbysu yn Adran 84 ac Adran 63 o'r Ddeddf. Mae penderfyniadau Adran 63 (canlyniad asesiad) yn berthnasol i resi 5a a 5b yn unig. Mae'r holl ddata eraill yn ymwneud â dod â'r ddyletswydd i ohebu i ben yn unol â hysbysiad adran 84.

Rhaid i gyfanswm y penderfyniadau a gofnodir yn Nhabl 1 fod yr un fath â chyfaswm y penderfyniadau a gofnodwyd yn Nhabl 5.

